

Agenda – Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd	Gareth Williams
Dyddiad: Dydd Llun, 19 Medi 2016	Clerc y Pwyllgor
Amser: 14.30	0300 200 6565
	SeneddMCD@cynulliad.cymru

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau
- 2 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

SL(5)008 – Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) 2016
(Tudalennau 1 – 35)

CLA(5)–05–16 – Papur 1 – Adroddiad
CLA(5)–05–16 – Papur 2 – Rheoliadau
CLA(5)–05–16 – Papur 3 – Memorandwm Esboniadol [Saesneg yn unig]

SL(5)009 – Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Dosbarthau Esempt ar Leoedd Tân)
(Cymru) 2016
(Tudalennau 36 – 256)

CLA(5)–05–16 – Papur 4 – Adroddiad
CLA(5)–05–16 – Papur 5 – Gorchymyn
CLA(5)–05–16 – Papur 6 – Memorandwm Esboniadol [Saesneg yn unig]



3 Papur(au) i'w nodi

**Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru):
Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**

(Tudalennau 257 – 268)

CLA(5)–05–16 – Papur 7 – Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, 13 Medi 2016

Adroddiad gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru: Cyfiawnder yng Nghymru

(Tudalennau 269 – 270)

CLA(5)–05–16 – Papur 8 – Datganiad i'r wasg ar yr adroddiad Cyfiawnder yng Nghymru gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru, 12 Medi 2016

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod cynnwys, casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu'n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson.

5 Bil Cymru

(Tudalennau 271 – 293)

CLA(5)–05–16 – Papur 9 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

CLA(5)–05–16 – Papur 10 – Gwelliannau a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin [Saesneg yn unig]

Dyddiad y cyfarfod nesaf

26 Medi 2016

SL(05)008 - Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2016

Cefndir a Phwrrpas

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Ardaloedd Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2015 (O.S. 2015/1517 (Cy. 176)). Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu pob tanwydd sydd wedi ei awdurdodi i'w ddefnyddio mewn ardaloedd rheoli mwg yng Nghymru at ddibenion adran 20 o Ddeddf Aer Glân 1993.

Gweithdrefn

Negyddol

Craffu Technegol

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

Rheol Sefydlog 21.2 (vii): Mae anghysondebau yn ystyr y testun Cymraeg a Saesneg. Mae'r Atodlen i'r Rheoliadau yn cynnwys tanwydd awdurdodedig "Aldi Winter Flame Smokeless Fuel". Ym mharagraff 1(d) o'r Atodlen, mae'r testun Saesneg yn disgrifio'r pwysau ar gyfartaledd fel "either 55 or 80 grams per briquette" tra bo'r testun Cymraeg yn dweud "50 neu 80"

Craffu ar rinweddau

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
26 Gorffennaf 2016



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2016 Rhif 812 (Cy. 202)

AER GLÂN, CYMRU

**Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg
(Tanwyddau Awdurdodedig)
(Cymru) 2016**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2015 (O.S. 2015/1517 (Cy. 176)) ("Rheoliadau 2015").

Mae adran 20 o Ddeddf Aer Glân 1993 ("Deddf 1993") yn darparu ei bod yn drosedd gollwng mwg o simnai adeilad, neu simnai sy'n gwasanaethu ffwrnais boeler sefydlog neu beiriannau diwydiannol, os yw'r simnai honno mewn ardal rheoli mwg. Er hynny, yn rhinwedd adran 20(3) mae'n amddiffyniad os gellir profi nad drwy ddefnyddio unrhyw danwydd ac eithrio tanwydd awdurdodedig yr achoswyd y gollyngiad honedig.

Yn rhinwedd adran 20(6), ystyr "authorised fuel" ("tanwydd awdurdodedig") yw tanwydd y datganwyd ei fod yn danwydd awdurdodedig drwy reoliadau. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau o'r fath bellach yn arferadwy o ran Cymru gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu pob tanwydd sydd wedi ei awdurdodi ar hyn o bryd i'w ddefnyddio mewn ardaloedd rheoli mwg yng Nghymru at ddibenion adran 20 o Ddeddf 1993.

Mae'r holl danwyddau a restrwyd yn yr Atodlen i Rheoliadau 2015 yn union cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym yn parhau i fod yn danwyddau awdurdodedig, ac eithrio y gwneir newid i fanyleb un tanwydd (brics glo Ecoal (a farchnetir hefyd fel brics glo Homefire Ecoal a Supertherm 30)).

Mae pedwar tanwydd ychwanegol wedi eu hawdurdodi am y tro cyntaf (ALDI Winter Flame Smokeless Fuel, Cosyglo Smokeless, CPL Restaurant Grade Charcoal a brics glo Firegold).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2016 Rhif 812 (Cy. 202)

AER GLÂN, CYMRU

**Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg
(Tanwyddau Awdurdodedig)
(Cymru) 2016**

Gwnaed 26 Gorffennaf 2016

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 29 Gorffennaf 2016

Yn dod i rym 22 Awst 2016

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir gan adran 20(6) o Ddeddf Aer Glân 1993(1):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2016 a deuant i rym ar 22 Awst 2016.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Tanwyddau awdurdodedig at ddibenion Rhan III o Ddeddf Aer Glân 1993

2. Datgenir bod glo caled, glo lled-galed, trydan, nwy, gloeau stêm isel eu hanweddolrwydd a'r tanwyddau a ddisgrifir yn yr Atodlen yn danwyddau awdurdodedig at ddibenion Rhan III o Ddeddf Aer Glân 1993.

(1) 1993 p. 11. Trosglwyddwyd swyddogaeth berthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo. Mae'r swyddogaeth honno bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Dirymu

3. Mae Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2015(1) wedi eu dirymu.

Lesley Griffiths

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a
Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
26 Gorffennaf 2016

(1) O.S. 2015/1517 (Cy. 176).

YR ATODLEN

Rheoliad 2

TANWYDDAU AWDURDODEDIG

1. ALDI Winter Flame Smokeless Fuel – a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln—

- (a) a gyfansoddir o lo caled (sef tua 60 i 80% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 10 i 30% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr o driagl ac asid ffosfforig (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o tua 300°C;
- (c) sydd naill ai'n frics glo heb eu marcio ar siâp gobennydd neu'n frics glo ar siâp gobennydd wedi eu marcio â hicyn ar ffurf llinell hydredol sengl ar bob wyneb, 10 milimetr i ffwrdd o'r llinell gyfatebol gyferbyn;
- (d) sy'n pwyso naill ai 50 neu 80 gram y fricsen ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau mewn cyflwr sych.

2. Brics glo Aimcor Excel, a weithgynhyrchir gan Applied Industrial Materials UK Limited yn Newfield, Swydd Durham, neu a weithgynhyrchir gan Oxbow Carbon & Minerals UK Limited yn Windsor House, Cornwall Road, Harrogate, Gogledd Swydd Efrog—

- (a) a gyfansoddir o ologsg petrolewm (sef tua 60 i 75% o'r cyfanswm pwysau), glo anwedolrwydd-isel a golosg adweithiol (sef tua 20 i 25% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr resin sy'n caledu wrth oeri (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu;
- (c) sy'n frics glo heb eu marcio ar siâp gobennydd;
- (d) sy'n pwyso 73 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau.

3. Brics glo Aimcor Pureheat, a weithgynhyrchir gan Applied Industrial Materials UK Limited yn Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln, neu a weithgynhyrchir gan Oxbow Carbon & Minerals UK Limited yn Windsor House, Cornwall Road, Harrogate, Gogledd Swydd Efrog—

- (a) a gyfansoddir o lo caled (sef tua 60% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 25% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o tua 250°C;
- (c) sy'n frics glo ar siâp gobennydd gyda hicyn ar ffurf llinell sengl ar un ochr a hicyn ar ffurf llinell ddwbl ar yr ochr arall;
- (d) sy'n pwyso 75 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau.

4. Brics glo Ancit, a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln—

- (a) a gyfansoddir o lo caled (sef tua 60 i 95% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (hyd at tua 30% o'r cyfanswm pwysau), glo meddal (hyd at tua 15% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr o driagl ac asid ffosfforig neu rhwymwr organig (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o tua 300°C;
- (c) sy'n frics glo heb eu marcio ar siâp clustog;
- (d) sy'n pwyso 48 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau.

5. Boncyffion tân Big K Instant Lighting Fire Logs, a weithgynhyrchir gan Allspan BV ym Macroweg 4, 5804 CL Venray, yr Iseldiroedd—

- (a) a gyfansoddir o gwyr hydrin (sef tua 58 i 59% o'r cyfanswm pwysau) a blawd llif pren caled (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses o drin â gwres ac allwthio;
- (c) sydd tua 235 o filimetrau o hyd a 80 o filimetrau o ddyfnder, gyda rhigolau ar hyd yr wynebau;
- (d) sy'n pwyso 1.1 cilogram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 0.1% o'r cyfanswm pwysau.

6. Siarcol Big K Restaurant Grade Charcoal, a weithgynhyrchir gan Big K Products UK Limited yn Parque Industrial Alvear, 2126 Alvear, Provincia de Santa Fe, yr Ariannin—

- (a) a gyfansoddir o bren quebracho gwyn a byrolswyd;

- (b) a weithgynhyrchwyd gan ddefnyddio proses o byrolysis mewn odyn ar tua 450°C;
- (c) sy'n ddarnau o siarcol heb eu marcio, rhwng 30 o filimetrau a 150 o filimetrau; a
- (d) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau.

7. Brics glo Black Diamond Gem, a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln—

- (a) a gyfansoddir o lwch glo caled (sef tuag 20 i 30% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 40 i 45% o'r cyfanswm pwysau), glo meddal (sef tua 12 i 22% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr o driagl ac asid ffosfforig (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o tua 300°C;
- (c) sy'n frics glo ar siâp gobennydd wedi eu marcio â hicyn ar ffurf dwy linell gyfochrog sy'n rhedeg yn lledredol o amgylch y fricsen;
- (d) sy'n pwyso 160 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy nag 1.5% o'r cyfanswm pwysau.

8. Boncyffion tân Bord na Móna Firelogs, a weithgynhyrchir gan Bord na Móna Fuels Limited, Newbridge, County Kildare, Iwerddon—

- (a) a gyfansoddir o gwyr hydrin (sef tua 55% o'r cyfanswm pwysau) a blawd llif pren caled (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses o drin â gwres ac allwthio;
- (c) sydd tua 255 o filimetrau o hyd gyda diamedr o 75 o filimetrau, gyda rhigolau ar hyd un wyneb hydredol;
- (d) sy'n pwyso 1.3 cilogram (net) ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 0.1% o'r cyfanswm pwysau.

9. Brics glo Bord na Móna Firepak (a farchnetir hefyd fel brics glo Arigna Special), a weithgynhyrchir gan Bord na Móna Fuels Limited, Newbridge, County Kildare, Iwerddon—

- (a) a gyfansoddir o lo caled (sef tua 50% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tuag 20 i 40% o'r cyfanswm pwysau), glo meddal (sef tua 10 i 30% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr seiliedig ar starts (sef gweddill y pwysau);

- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres;
- (c) sy'n frics glo heb eu marcio, ar siâp gobennydd;
- (d) sy'n pwyso 50 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy nag 1.5% o'r cyfanswm pwysau.

10. Brics glo Brazier, a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln—

- (a) a gyfansoddir o lo caled (sef tua 60 i 80% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 10 i 30% o'r cyfanswm pwysau), a rhwymwr o driagl ac asid ffosfforig (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o tua 300°C;
- (c) sydd naill ai'n frics heb eu marcio ar siâp gobennydd neu'n frics ar siâp gobennydd wedi eu marcio â hicyn ar ffurf llinell hydredol sengl ar bob wyneb, 10 milimetr i ffwrdd o'r llinell gyfatebol gyferbyn;
- (d) sy'n pwyso naill ai 50 neu 80 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau mewn cyflwr sych.

11. Brics glo Briteflame, a weithgynhyrchir gan Maxibrite Limited yn Ystad Ddiwydiannol Mwyndy, Llantrisant, Rhondda Cynon Taf—

- (a) a gyfansoddir o lo meddal (sef tua 10 i 15% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 10 i 15% o'r cyfanswm pwysau), llwch glo caled (sef tua 70 i 80% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr starts (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o tua 260°C;
- (c) sy'n frics glo heb eu marcio ar siâp gobennydd;
- (d) sy'n pwyso 140 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy nag 1.9% o'r cyfanswm pwysau mewn cyflwr sych.

12. Brics glo Briteheat, a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln—

- (a) a gyfansoddir o lo caled (sef tua 60 i 85% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (hyd at tua 30% o'r cyfanswm pwysau), glo meddal (hyd at tua 15% o'r cyfanswm pwysau), a rhwymwr o driagl ac asid ffosfforig (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o tua 300°C;
- (c) sy'n frics glo ar siâp clustog gyda hicyn ar ffurf llinell yn rhedeg yn hydredol o gwmpas y fricsen;
- (d) sy'n pwyso 30 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau.

13. Brics glo Briteheat Plus, a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln—

- (a) a gyfansoddir o lwch glo caled (sef tua 75 i 95% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (hyd at tua 20% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr organig (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu;
- (c) sy'n frics glo heb eu marcio ar siâp gobennydd;
- (d) sy'n pwyso 80 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau.

14. Boncyffion tân Bryant and May Firelogs, a weithgynhyrchir gan Swedish Match yn Kostenetz, Bwlgaria—

- (a) a gyfansoddir o gwyr paraffin (sef tua 50% o'r cyfanswm pwysau), pren poplys mâl (sef tua 25% o'r cyfanswm pwysau), blawd gwenith (sef tua 15% o'r cyfanswm pwysau), solidau cyneudwy ar wasgar mewn cwr paraffin ar ffurf jel (sef tua 1% o'r cyfanswm pwysau) a dŵr, cyfryngau chwyddo a chadwolyn (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys allwthio;
- (c) sydd â'u trawstoriad yn gwadrant gyda radiws o tua 80 o filimetrau a'u hyd tua 265 o filimetrau gyda sribyn cynnau ar hyd un ymyl;
- (d) sy'n pwyso tuag 1.15 cilogram; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 0.1% o'r cyfanswm pwysau.

15. Brics glo Charglow, a weithgynhrychir gan Polchar Spolka z ograniczona odpowiedzialnoscia, Police, Zachodniopomorskie, Gwlad Pwyl—

- (a) a gyfansoddir o gols glo meddal (sef tua 45 i 95% o'r cyfanswm pwysau), glo caled (sef tua 0 i 20% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 0 i 20% o'r cyfanswm pwysau), glo meddal (sef tua 0 i 10% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr organig (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhrychwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o tua 110°C;
- (c) sy'n frics glo heb eu marcio ar siâp gobennydd;
- (d) sy'n pwyso 100 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy nag 1.5% o'r cyfanswm pwysau.

16. Coalite, a weithgynhrychir gan Coalite Products Limited yn Bolsover, ger Chesterfield, Swydd Derby ac yn Grimethorpe, De Swydd Efrog drwy ddefnyddio proses o garboneiddio ar dymheredd isel.

17. Brics glo Coalite Ovals, a weithgynhrychir gan Maxibrite Limited yn Ystad Ddiwydiannol Mwyndy, Llantrisant, Rhondda Cynon Taf—

- (a) a gyfansoddir o lo meddal (sef tua 10 i 15% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 10 i 15% o'r cyfanswm pwysau), llwch glo caled (sef tua 70 i 80% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr starts (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhrychwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o tua 260°C;
- (c) sy'n frics glo heb eu marcio ar siâp gobennydd sydd tua 84.2 o filimetrau o hyd x 61.5 o filimetrau x 37.8 o filimetrau;
- (d) sy'n pwyso 118 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy nag 1.9% o'r cyfanswm pwysau mewn cyflwr sych.

18. Golosg a weithgynhrychir gan—

- (a) Coal Products Limited yn Cwm Coking Works, Llanilltud Faerdref, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf, ac a werthir fel "Sunbrite";
- (b) Monckton Coke & Chemical Company Limited yn Royston, ger Barnsley, De Swydd Efrog ac a werthir fel "Sunbrite" neu "Monckton Boiler Beans";

- (c) Corus UK Limited yn Teesside Works, Redcar & Cleveland ac a werthir fel “Redcar Coke Nuts (Doubles)”;
- (d) Coal Products Limited yn Cwm Coking Works, Llanilltud Faerdref, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf ac a werthir fel “Cwm Coke Doubles”.

19. Cosycoke (a farchnetir hefyd fel Lionheart Crusader neu Sunbrite Plus), a weithgynhyrchir gan Monckton Coke & Chemical Company Limited yn Royston, ger Barnsley, De Swydd Efrog ac Aimcor Supercoke (a farchnetir hefyd fel Supercoke), a weithgynhyrchir gan M & G Fuels Limited yn Hartlepool Docks, Hartlepool, ac ym mhob achos—

- (a) a gyfansoddir o olog caled o faint penodol (sef tua 45 i 65% o'r cyfanswm pwysau) a golosg petrolewm o faint penodol (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy eu blendio;
- (c) sy'n hapsiapiau heb eu marcio; a
- (d) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau.

20. Siarcol Direct Charcoal Blue Bag Premium Grade Restaurant Charcoal, a weithgynhyrchir gan Direct Charcoal yn Ekamanzi Road, Dalton, KwaZulu Natal, Gweriniaeth De Affrica—

- (a) a gyfansoddir o bren *Acacia mercii* a byrolswyd;
- (b) a weithgynhyrchwyd gan ddefnyddio proses o byrolysis mewnodyn ar tua 420 i 480°C;
- (c) sy'n ddarnau o siarcol heb eu marcio, rhwng 30 o filimetrau a 150 o filimetrau; a
- (d) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau.

21. Brics glo Cosyglo Smokeless a weithgynhyrchir gan Arigna Fuels yn Arigna, Carrick-on-Shannon, County Roscommon, Iwerddon—

- (a) a gyfansoddir o lo caled (sef tua 35 i 50% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (hyd at tua 45% o'r cyfanswm pwysau), glo meddal (hyd at tuag 20% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr starts neu rywimwr organig arall (hyd at 5% o'r cyfanswm pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o tua 250°C;
- (c) sy'n frics glo heb eu marcio ar siâp gobennydd sydd tua 80 o filimetrau o hyd, 60 o filimetrau o led a 40 o filimetrau o uchder;

- (d) sy'n pwyso 110 gram y fricsen ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy nag 1.8% o'r cyfanswm pwysau mewn cyflwr sych.

22. Siarcol CPL Restaurant Grade Charcoal – a weithgynhyrchir gan Kunfayakun Global Treasures Limited (KGT) yn Kunfayakun Stores, No. 1, Aranse Street, Station, Sagamu, Orgub State E17, Shagamu International Market, Nigeria—

- (a) a gyfansoddir o *Anogeissus Leiocarpus*, *Burkea Africana*, *Distemonanthus Benthamianus* a *Vitellaria Paraclozum* wedi eu pyrolysu;
- (b) a weithgynhyrchwyd gan ddefnyddio proses o byrolysis mewn olyn ar tua 450°C i 550°C;
- (c) sy'n ddarnau o siarcol heb eu marcio, rhwng 50 a 180 o filimetrau; a
- (d) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy nag 1.9% o'r cyfanswm pwysau mewn cyflwr sych.

23. Siarcol Direct Charcoal Blue Bag Restaurant Charcoal, a weithgynhyrchir gan Direct Charcoal Limited yn Ruta 25, km. 9,5 –Pilar (cp.1629) Buenos Aires, yr Ariannin—

- (a) a gyfansoddir o bren Quebracho gwyn a phren Guayacan wedi eu pyrolysu;
- (b) a weithgynhyrchwyd gan ddefnyddio proses o byrolysis mewn olyn ar tua 420 i 480°C;
- (c) sy'n ddarnau o siarcol heb eu marcio, rhwng 30 o filimetrau a 150 o filimetrau; a
- (d) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau.

24. Brics glo Dragonbrite, a weithgynhyrchir gan Tower Colliery Limited yn Aberdâr, Rhondda Cynon Taf—

- (a) a gyfansoddir o lwch y tŵr (sef tua 95% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr seiliedig ar resin (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a chaledu oer;
- (c) sy'n frics glo ar siâp gobennydd, wedi eu marcio â'r llythyren "T" ar un ochr;
- (d) sy'n pwyso 50 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy nag 1% o'r cyfanswm pwysau.

25. Brics glo Dragonglow, a weithgynhyrchir gan Tower Colliery Limited yn Aberdâr, Rhondda Cynon Taf—

- (a) a gyfansoddir o lwch y twr (sef tua 95% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr seiliedig ar resin (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhrychwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a chaledu oer;
- (c) sy'n frics glo heb eu marcio ar siâp gobennydd;
- (d) sy'n pwyso 100 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy nag 1% o'r cyfanswm pwysau.

26. Boncyffion tân Duraflame Firelogs, a weithgynhrychir gan Paramelt BV, Costerstraat 18, PO Box 86, 1700 AB Heerhugowaard, yr Iseldiroedd—

- (a) a gyfansoddir o gwyr petrolewm mwynol (sef tua 55% o'r cyfanswm pwysau) a ffibr pren caled mâl (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhrychwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses o drin â gwres ac allwthio;
- (c) sydd tua 320 o filimetrau o hyd, 90 o filimetrau o uchder ac 85 o filimetrau o led;
- (d) sy'n pwyso 1.45 cilogram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 0.1% o'r cyfanswm pwysau.

27. Brics glo Ecoal (a farchnetir hefyd fel brics glo Homefire Ecoal a Supertherm 30), a weithgynhrychir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln—

- (a) a gyfansoddir o ronynnau glo caled (sef tua 40 i 65% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 20 i 40% o'r cyfanswm pwysau), glo meddal (sef tua 0 i 20% o'r cyfanswm pwysau), biomas (sef tua 5 i 20% o'r cyfanswm pwysau), cols biomas (sef tua 0 i 10% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr o driagl ac asid ffosfforig (sef 20% o'r cyfanswm pwysau ar y mwyaf);
- (b) a weithgynhrychwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o tua 300°C;
- (c) sy'n frics glo heb eu marcio ar siâp gobennydd sydd fel arfer yn 72 o filimetrau o hyd, 58 o filimetrau o led a 42 o filimetrau o uchder neu sy'n frics glo chweonglog heb eu marcio sydd fel arfer yn 70 o filimetrau o hyd, 73 o filimetrau o led a 39 o filimetrau o uchder;
- (d) sy'n pwyso 125 gram y fricsen ar gyfartaledd; ac

- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau.

28. Brics glo Ecoal 50, a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln—

- (a) a gyfansoddir o ronynnau glo caled (sef tua 30 i 55% o'r cyfanswm pwysau), biomas (sef tua 25 i 35% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 10 i 40% o'r cyfanswm pwysau), glo meddal (sef tua 0 i 5% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr organig naturiol (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a'u trin wedyn â gwres o tua 300°C mewn amgylchedd rheoledig gydag ocsigen gostyngedig;
- (c) sy'n frics glo chweonglog gydag un streipen sengl ar un ochr ar draws y wynebau gwastad;
- (d) sy'n pwyso 135 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau.

29. Brics glo Ecobrite, a weithgynhyrchir gan Arigna Fuels Limited yn Arigna, Carrick-on-Shannon, County Roscommon, Iwerddon—

- (a) a gyfansoddir o ronynnau glo caled (sef tua 96% o'r cyfanswm pwysau) a starts yn rhwymwr (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o tua 250°C;
- (c) sy'n frics glo heb eu marcio ar siâp gobennydd mewn dau faint;
- (d) sydd, ar gyfartaledd, yn pwyso 37 gram yn achos y maint lleiaf a 48 gram yn achos y maint mwyaf; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy nag 1.5% o'r cyfanswm pwysau.

30. Brics glo EDF Fuel, a weithgynhyrchir gan The Green Factory yn y Laboratoire de Chimie Agro-industrielle UMR 1010 INRA/INP-ENSIACET AGROMAT, Site de l'ENIT 47, Avenue D'Azereiz, -BP 1629 65016 Tarbes Cedex, Ffrainc—

- (a) a gyfansoddir o tua 100 gram o Miscanthus heb ei brosesu (sef tua 45% o'r cyfanswm pwysau), tua 95 gram o ester Copra (sef tua 43% o'r cyfanswm pwysau), a thua 25 gram o rwymwr a gynhyrchwyd o Miscanthus (wedi ei brosesu â chalsiwm ocsid, sy'n ffurfio tua 0.5% o'r cyfanswm pwysau), sef gweddill y pwysau;

- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys prosesu *Miscanthus*, cymysgu, poethwasgu, a throchi mewn baddon ester;
- (c) sy'n frics glo heb eu marcio ar siâp silindr, 120 o filimetrau o uchder gyda diamedr o 60 o filimetrau, a thwll canolog ar siâp seren yn treiddio drwy hyd hiraf y fricsen;
- (d) sy'n pwyso 220 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau.

31. Brics glo Excel+, a weithgynhyrchir gan Oxbow Coal BV yn Newfield Works, Bishop Auckland, Swydd Durham—

- (a) a gyfansoddir o olog petrolewm (sef 65 i 70% o'r cyfanswm pwysau), glo caled (sef 25% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr resin sy'n caledu wrth oeri, caledwr a sefydlogydd tymheredd isel (sef gweddill y pwysau);
- (b) a gynhyrchir ar y tymheredd amgylchynol drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a chaledu oer;
- (c) sy'n frics glo heb eu marcio ar siâp gobennydd sgwâr;
- (d) sy'n pwyso 100 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy nag 1.9% o'r cyfanswm pwysau.

32. Brics glo Extracite, a weithgynhyrchir gan Sophia-Jacoba Handelsgesellschaft GmbH yn Hückelhoven, yr Almaen—

- (a) a gyfansoddir o lwch glo caled (sef tua 95.5% o'r cyfanswm pwysau) a lleisw amoniwm lignosylffonad yn rhwymwr (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o tua 260°C;
- (c) sy'n frics glo ag arlliw ariannaidd ar siâp clustog, wedi eu marcio â'r llythrennau "S" a "J";
- (d) sy'n pwyso 40 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) sydd â'u cynnwys o sylffwr tuag 1.2% o'r cyfanswm pwysau.

33. Brics glo Fireglo, a weithgynhyrchir gan Les Combustibles de Normandie yn Caen, Ffrainc, a chan La Société Rouennaise de Défumage yn Rouen, Ffrainc—

- (a) a gyfansoddir o lychau Cymreig wedi eu golchi (sef tua 92% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr o byg glo (sef gweddill y pwysau);

- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o tua 330°C;
- (c) sy'n ofoidau gyda thair llinell ar un ochr a'r ochr arall yn llyfn;
- (d) sy'n pwyso 30 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 0.8% o'r cyfanswm pwysau.

34. Brics glo Firegold – a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln—

- (a) a gyfansoddir o lo caled (sef tua 36 i 51% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 40 i 55% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr organig neu rywimwr o driagl ac asid ffosfforig (sef 20% o'r cyfanswm pwysau ar y mwyaf);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu;
- (c) sy'n frics glo heb eu marcio ar siâp gobennydd sydd fel arfer yn 54 o filimetrau o hyd, 58 o filimetrau o led a 34 o filimetrau o uchder;
- (d) sy'n pwyso 87 gram y fricsen ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau mewn cyflwr sych.

35. Siarcol G N Grosvenor (Fuel Express) Restaurant Charcoal, a weithgynhyrchir gan Pabensa S.A. Aviadores del Chaco, Asuncion, Paraguay—

- (a) a gyfansoddir o'r coedydd caled *Prosopis nigra*, *Cordia alliodora*, *Centrolobium*, *Prosopis kuntzei*, *Caesalpinia*, *Goncalo alves* a *Tabebuia* wedi eu pyrolysu;
- (b) a weithgynhyrchwyd gan ddefnyddio proses o byrolysis mewn odyr ar tuag 800°C;
- (c) sy'n ddarnau o siarcol rhwng 20 a 120 o filimetrau, heb eu marcio; a
- (d) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau mewn cyflwr sych.

36. Brics glo Homefire, a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln—

- (a) a gyfansoddir o ronynnau glo caled (sef tua 40 i 70% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tuag 20 i 45% o'r cyfanswm pwysau), cols (sef tua 0 i 10% o'r cyfanswm pwysau), glo meddal (sef tua 5 i 30% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr organig neu

rwymwr o driagl ac asid ffosfforig (sef gweddill y pwysau);

- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu;
- (c) nad yw eu cynnwys o ddeunydd anweddol, fel brics glo gorffenedig, yn llai na 9% nac yn fwy na 15% o'r cyfanswm pwysau mewn cyflwr sych;
- (d) sy'n frics glo chweonglog heb eu marcio;
- (e) sy'n pwyso 140 gram ar gyfartaledd; ac
- (f) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau.

37. Boncyffion tân Homefire Fire Logs, a weithgynhyrchir gan De Lange BV, Rustenbugerweg 3, 1646 WJ Ursem, yr Iseldiroedd—

- (a) a gyfansoddir o gwyr hydrin (sef tua 50% o'r cyfanswm pwysau) a blawd llif (sef tua 50% o'r cyfanswm pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses o drin â gwres ac allwthio;
- (c) sydd tua 280 o filimetrau o hyd a 75 o filimetrau x 75 o filimetrau, gydag un rhigol ar hyd pob un o'u pedwar wyneb sydd â'u hyd yn 280 milimetr;
- (d) sy'n pwyso 1.1 cilogram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 0.2% o'r cyfanswm pwysau.

38. Homefire Ovals, a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln—

- (a) a gyfansoddir o lwch glo caled (sef tua 57% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 17% o'r cyfanswm pwysau), glo meddal (sef tua 13% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr o driagl ac asid ffosfforig (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o tua 300°C;
- (c) sy'n frics glo ar siâp gobennydd wedi eu marcio â hicyn ar ffurf dwy linell gyfochrog sy'n ymestyn yn lledredol o amgylch y fricsen;
- (d) sy'n pwyso 135 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau.

39. Homefire Ovals (R), a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting

Works, Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln—

- (a) a gyfansoddir o ronynnau glo caled (sef tua 50 i 75% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tuag 20 i 45% o'r cyfanswm pwysau), glo meddal (sef tua 5 i 17% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr organig (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhrychwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu;
- (c) sy'n frics glo ar siâp gobennydd wedi eu marcio â hicyn ar ffurf dwy linell gyfochrog sy'n ymestyn yn lledredol o amgylch y fricsen;
- (d) sy'n pwysu 130 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau.

40. Hot Drops, a weithgynhrychir gan EU Zeme Limited yn Riga, Eksporta Street 15, LV-1045, Latfia—

- (a) a gyfansoddir o falurion glo caled (sef tua 73% o'r cyfanswm pwysau), glo meddal (sef tua 18% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr o driagl ac asid orthoffosfforig (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhrychwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu, ac wedyn eu trin â gwres o tua 250 i 280°C;
- (c) sy'n frics glo, ar siâp gobennydd sydd bron yn grwn, gyda diamedr o 40 o filimetrau a thrwch o tua 21 o filimetrau yng nghanol y fricsen;
- (d) sy'n pwysu 23 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 0.5% o'r cyfanswm pwysau.

41. HouseFuel Smokeless Ovals, a weithgynhrychir gan Maxibrite Limited yn Llantrisant, Rhondda Cynon Taf—

- (a) a gyfansoddir o ronynnau glo caled (sef tua 84% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 12% o'r cyfanswm pwysau) a starts yn rhwymwr (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhrychwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o tua 260°C;
- (c) sy'n frics glo heb eu marcio ar siâp gobennydd;
- (d) sy'n pwysu 78 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau.

42. HouseFuel Smokeless Ovals, a weithgynhyrchir gan Maxibrite Limited yn Ystad Ddiwydiannol Mwyndy, Llantrisant, Rhondda Cynon Taf—

- (a) a gyfansoddir o lo meddal a golosg petrolewm (y ddau hyd at tua 10 i 15% o'r cyfanswm pwysau) a llwch glo caled gyda rhwymwr starts (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o tua 260°C;
- (c) sy'n frics glo heb eu marcio ar siâp gobennydd gyda'u dimensiynau mwyaf tua 68 o filimetrau, 63 o filimetrau a 38 o filimetrau;
- (d) sy'n pwyso 110 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy nag 1.9% o'r cyfanswm pwysau mewn cyflwr sych.

43. Island Lump ac Island Nuts, a weithgynhyrchir gan Unocal Refinery, California, Unol Daleithiau America—

- (a) a gyfansoddir o olog petrolewm;
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r golosg petrolewm drwy broses sy'n cynnwys trin â gwres a chwistrellu stêm;
- (c) sy'n hapsiapiau heb eu marcio;
- (d) sy'n pwyso 80 gram ar gyfartaledd (Island Lump) neu 30 gram ar gyfartaledd (Island Nuts); ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau.

44. Brics glo Jewel, a weithgynhyrchir gan Eldon Colliery Limited yn Newfield Works, Bishop Auckland, Swydd Durham—

- (a) a gyfansoddir o lo caled (sef tua 30 i 50% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm Long Beach (sef tua 50 i 70% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr o garbohydrad (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o tua 150°C;
- (c) sy'n frics glo heb eu marcio ar siâp gobennydd;
- (d) sy'n pwyso 33 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy nag 1.5% o'r cyfanswm pwysau.

45. Boncyffion La Hacienda Easy Logs, a weithgynhyrchir gan Allspan BV ym Macroweg 4, 5804 CL Venray, yr Iseldiroedd—

- (a) a gyfansoddir o gwyr hydrin (sef tua 58 i 59% o'r cyfanswm pwysau), a blawd llif pren caled (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses o drin â gwres ac allwthio;
- (c) sydd tua 235 o filimetrau o hyd a 80 o filimetrau o ddyfnder, gyda rhigolau ar hyd yr wynebau;
- (d) sy'n pwyso 1.1 cilogram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 0.1% o'r cyfanswm pwysau.

46. Long Beach Lump nuts (a elwir hefyd yn LBL nuts), a weithgynhyrchir gan Aimcor Carbon Corporation yn Long Beach, California, Unol Daleithiau America neu a weithgynhyrchir gan Oxbow Carbon & Minerals LLC, 330 Golden Shore, Suite 210, Long Beach, California 90802, Unol Daleithiau America—

- (a) a gyfansoddir o olog petrolewm (sef tua 85 i 100% o'r cyfanswm pwysau), calchfaen (sef tua 0 i 10% o'r cyfanswm pwysau) a phyg tar glo (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys trin â gwres a chwistrellu stêm;
- (c) sy'n hapsiapiau heb eu marcio; a
- (d) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau.

47. Brics glo Maxibrite, a weithgynhyrchir gan Maxibrite Limited yn Llantrisant, Rhondda Cynon Taf—

- (a) a gyfansoddir o ronynnau glo caled (sef tua 84% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 12% o'r cyfanswm pwysau) a starts yn rhwymwr (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o tua 250°C;
- (c) sy'n frics glo ar siâp clustog wedi eu marcio â'r llythyren "M";
- (d) sy'n pwyso 35 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau.

48. Brics glo Multiheat, a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln—

- (a) a gyfansoddir o lo caled (sef tua 60 i 80% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 10 i 30% o'r cyfanswm pwysau) a

rhwymwr o driagl ac asid ffosfforig (sef gweddill y pwysau);

- (b) a weithgynhrychwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o tua 300°C;
- (c) sy'n frics glo heb eu marcio ar siâp gobennydd;
- (d) sy'n pwyso naill ai 55 neu 80 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau.

49. Brics glo Newburn, a weithgynhrychir gan ECL Mineral Processing Limited yn Newfield Works, Newfield, Bishop Auckland, Swydd Durham—

- (a) a gyfansoddir o olog petrolewm (sef tua 56 i 57% o'r cyfanswm pwysau), glo caled (sef tua 37 i 38% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr powdr sych (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhrychwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses o galedu oer gan ddefnyddio gwasg rholer;
- (c) sy'n frics glo heb eu marcio ar siâp gobennydd ac yn mesur 70 o filimetrau x 62 o filimetrau x 42 o filimetrau;
- (d) sy'n pwyso 110 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau.

50. Brics glo Newburn, a weithgynhrychir gan M&G Solid Fuels LLP, Wilton International, Wilton, Middlesbrough, TS90 8WS—

- (a) a gyfansoddir o olog petrolewm (sef tua 56 i 57% o'r cyfanswm pwysau), glo caled (sef tua 37 to 38% o'r cyfanswm pwysau), a rhwymwr powdr sych (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhrychwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses o galedu oer gan ddefnyddio gwasg rholer;
- (c) sy'n frics glo heb eu marcio ar siâp gobennydd ac yn mesur 70 o filimetrau x 62 o filimetrau x 42 o filimetrau;
- (d) sy'n pwyso 110 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau.

51. Brics glo Newflame, a weithgynhrychir gan Maxibrite Limited yn Llantrisant, Rhondda Cynon Taf—

- (a) a gyfansoddir o ronynnau glo caled (sef tua 84% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 12% o'r cyfanswm pwysau) a starts yn rhwymwr (sef gweddill y pwysau);

- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o tua 260°C;
- (c) sy'n frics glo heb eu marcio ar siâp gobennydd;
- (d) sy'n pwyso 78 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau.

52. Brics glo Newflame Plus, a weithgynhyrchir gan Maxibrite Limited, Ystad Ddiwydiannol Mwyndy, Llantrisant, Rhondda Cynon Taf—

- (a) a gyfansoddir o lo meddal (sef tua 10 i 15% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 10 i 15% o'r cyfanswm pwysau), llwch glo caled (sef tua 70 i 80% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr starts (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o tua 260°C;
- (c) sy'n frics glo heb eu marcio ar siâp gobennydd, gyda'u dimensiynau mwyaf tua 68 o filimetrau x 63 o filimetrau x 38 o filimetrau;
- (d) sy'n pwyso 110 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 1.9% o'r cyfanswm pwysau mewn cyflwr sych.

53. Brics glo Newheat, a weithgynhyrchir gan Oxbow Coal BV yn Newfield Works, Bishop Auckland, Swydd Durham—

- (a) a gyfansoddir o olog petrolewm (sef tua 60 i 65% o'r cyfanswm pwysau), glo caled (sef tua 30 i 35% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr resin sy'n caledu wrth oeri, caledwr a sefydlogydd tymheredd isel (sef gweddill y pwysau);
- (b) a gynhyrchwyd ar y tymheredd amgylchynol drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a chaledu oer;
- (c) sy'n frics glo hirgrwn, heb eu marcio ar siâp gobennydd;
- (d) sy'n pwyso tua 100 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy nag 1.9% o'r cyfanswm pwysau.

54. Boncyffion tân Optima Fire Logs, a weithgynhyrchir gan Allspan BV ym Macroweg 4, 5804 CL Venray, yr Iseldiroedd—

- (a) a gyfansoddir o gwyr hydrin (sef tua 58 i 59% o'r cyfanswm pwysau), a blawd llif pren caled (sef gweddill y pwysau);

- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses o drin â gwres ac allwthio;
- (c) sydd tua 235 o filimetrau o hyd a 80 o filimetrau o ddyfnder, gyda rhigolau ar hyd yr wynebau;
- (d) sy'n pwyso 1.1 cilogram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 0.1% o'r cyfanswm pwysau.

55. Siarcol Pagan Fuel's Restaurant Charcoal, a weithgynhyrchir gan Pabensa S.A. Aviadores del Chaco, Asuncion, Paraguay—

- (a) a gyfansoddir o'r coedydd caled *Prosopsis nigra*, *Cordia alliodora*, *Centrolobeum*, *Prosopsis kuntzei*, *Caesalpinia*, *Goncalo alves* a *Tabebuia* a byrolyswyd;
- (b) a weithgynhyrchwyd gan ddefnyddio proses o byrolysis mewnodyn ar tuag 800°C;
- (c) sy'n ddarnau o siarcol heb eu marcio rhwng 20 a 120 o filimetrau; a
- (d) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau mewn cyflwr sych.

56. Brics glo Phurnacite, a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln—

- (a) a gyfansoddir o lwch glo caled (sef tua 65 i 85% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 20% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr o driagl ac asid ffosfforig (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o tua 300°C;
- (c) sy'n frics glo ar siâp o foidau â dwy linell gyfochrog yn rhedeg yn hydredol o amgylch y fricsen;
- (d) sy'n pwyso 40 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau.

57. Boncyffion tân Pyrobloc Fire Logs, a weithgynhyrchir gan Allspan BV ym Macroweg 4, 5804 CL Venray, yr Iseldiroedd—

- (a) a gyfansoddir o gwyr hydrin (sef tua 58 i 59% o'r cyfanswm pwysau), a blawd llif pren caled (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses o drin â gwres ac allwthio;
- (c) sydd tua 265 o filimetrau o hyd ac 80 o filimetrau o ddyfnder, gyda rhigolau ar hyd yr wynebau;
- (d) sy'n pwyso 1.3 cilogram ar gyfartaledd; ac

- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 0.1% o'r cyfanswm pwysau.

58. Boncyffion tân Safelight Firelogs, a weithgynhyrchir gan Advanced Natural Fuels Limited, yn Pocklington, Dwyrain Swydd Efrog—

- (a) a gyfansoddir o sglodion pren (sef tua 40 i 55% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr o gwyr palmwydd (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys gwasgu'r cynhwysion, ar ôl eu cymysgu, ar dymheredd o tua 40°C i 50°C;
- (c) sy'n foncyffion tân petryal caled â dwy agen ddofn sy'n gorgyffwrdd ar yr wyneb uchaf, un agen ddi-dor ar yr wyneb isaf;
- (d) sy'n pwyso 1.8 cilogram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau.

59. Brics glo Sovereign, a weithgynhyrchir gan Monckton Coke & Chemical Company Limited yn Royston, ger Barnsley, De Swydd Efrog—

- (a) a gyfansoddir o lo caled (sef tua 75% o'r cyfanswm pwysau), glo a golosg adweithiol (sef tua 21% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr resin sy'n caledu wrth oeri (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys allwthio;
- (c) sy'n frics glo chweonglog heb eu marcio;
- (d) sy'n pwyso 130 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau.

60. Brics glo Stoveheat Premium, a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln—

- (a) a gyfansoddir o lwch glo caled (sef tua 65 i 85% o gyfanswm eu pwysau), golosg petrolewm (sef tua 20% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr o driagl ac asid ffosfforig (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rholio-wasgu a thrin â gwres o tua 300°C;
- (c) sy'n frics glo ar siâp clustog, gyda hicyn ar ffurf llinell sy'n ymestyn o amgylch y fricsen;
- (d) sy'n pwyso 30 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau.

61. Supabrite Coke Doubles, a weithgynhyrchir gan H. J. Banks and Company Limited yn Inkerman Road Depot, Tow Law, Swydd Durham—

- (a) a gyfansoddir o olog metelegol (sef tua 40 i 60% o'r cyfanswm pwysau) a golosg petrolewm (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys eu blendio a'u sgrinio;
- (c) sy'n hapsiapiau heb eu marcio; a
- (d) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy nag 1.95% o'r cyfanswm pwysau.

62. Brics glo Supacite, a weithgynhyrchir gan Maxibrite Limited yn Llantrisant, Rhondda Cynon Taf—

- (a) a gyfansoddir o ronynnau glo caled (sef tua 84% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 12% o'r cyfanswm pwysau) a starts yn rhwymwr (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o tua 240°C;
- (c) sy'n ofoidau heb eu marcio;
- (d) sy'n pwyso 45 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau.

63. Brics glo Supertherm, a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln—

- (a) a gyfansoddir o gymysgedd (mewn cyfrannedd o 19:1) o lo caled a glo canolig ei anweddolrwydd (sef tua 93% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr organig sy'n caledu wrth oeri neu rywimwr o driagl ac asid ffosfforig (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu;
- (c) sy'n ofoidau heb eu marcio;
- (d) sy'n pwyso 160 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy nag 1.5% o'r cyfanswm pwysau.

64. Brics glo Supertherm II, a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln—

- (a) a gyfansoddir o lo caled (sef tua 36 i 51% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 40 i 55% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr organig neu rywimwr o driagl ac asid ffosfforig (sef gweddill y pwysau);

- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rholio-wasgu;
- (c) sy'n ofoidau wedi eu marcio ag un llinell ledredol ar draws un wyneb i bob bricsen neu'n ofoidau heb eu marcio;
- (d) sy'n pwyso 140 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau mewn cyflwr sych.

65. Brics glo Taybrite (a elwir fel arall yn frics glo Surefire), a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln—

- (a) a gyfansoddir o lo caled (sef tua 60 i 80% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 10 i 30% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr o driagl ac asid ffosfforig (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rholio-wasgu a thrin â gwres o tua 300°C;
- (c) sy'n frics glo ar siâp gobennydd sydd naill ai wedi eu marcio â hycyn ar ffurf un llinell hydredol ar bob wyneb, 10 milimetr i ffwrdd o'r llinell gyfatebol gyferbyn, neu sydd heb eu marcio;
- (d) sy'n pwyso 80 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau.

66. Brics glo Therma, a weithgynhyrchir gan Maxibrite Limited yn Llantrisant, Rhondda Cynon Taf—

- (a) a gyfansoddir o ronynnau glo caled (sef tua 84% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 12% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr starts (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rholio-wasgu a thrin â gwres o tua 250°C;
- (c) sy'n frics glo hirgrwn/ar siâp deigrin gyda llinell drwy'r canol;
- (d) sy'n pwyso 26 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau.

67. Brics glo Thermac, a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln—

Worcester Greenstyle Hanbury 5 5.5kW: stof losgi coed gweithgynhyrwyd gan Bosch Thermotechnology Limited, Cotswold Way, Caerwrangon, WR4 9SW, y Deyrnas Unedig.	Llawlyfr Perchennog yr Hanbury 5 dyddiedig 01/02/2016 sydd â'r cyfeirnod "852481-4201E", a Llawlyfr Gosod yr Hanbury 5 dyddiedig 01/02/2016 sydd â'r cyfeirnod "852474-4201E". Rhaid i'r offeryn gynnwys addasiad sy'n atal y rheolydd aer eilaidd rhag cau y tu hwnt i'r safle 3mm agored.	Boncyffion coed ⁽¹⁾ .
Worcester Greenstyle Hanbury 8 7.7kW: stof losgi coed gweithgynhyrwyd gan Bosch Thermotechnology Limited, Cotswold Way, Caerwrangon, WR4 9SW, y Deyrnas Unedig	Llawlyfr Perchennog yr Hanbury 8 dyddiedig 01/02/2016 sydd â'r cyfeirnod "852482-4201E", a Llawlyfr Gosod yr Hanbury 8 dyddiedig 01/02/2016 sydd â'r cyfeirnod "852475-4201E". Rhaid i'r offeryn gynnwys addasiad sy'n atal y rheolydd aer eilaidd rhag cau y tu hwnt i'r safle 3mm agored.	Boncyffion coed ⁽¹⁾ .
WTA WT Auto 200kW Airheater: gwresogydd aer. Gweithgynhyrwyd gan Wood Waste Technology Ltd., Units 1 & 2, Drummond Road, Astonfields Industrial Estate, Stafford, Swydd Stafford, ST16 3HJ.	Y llawlyfr cyfarwyddiadau sydd â'r cyfeirnod "WTA Installation Operation & Maintenance Instructions WTA v1 Issue A" dyddiedig Ebrill 2011.	Sglodfwrdd, byrddau ffibr dwysedd canolig, coed meddal, coed caled. Maint mwyaf y sglodion o bob tanwydd yw 25mm a'r cynnwys lleithder mwyaf yw 20%. Cynnwys o lwch (blawd llif) yw 5% ar y mwyaf ⁽¹⁾ .

<i>Dosbarth ar le tân</i>	<i>Yr Amodau</i>	
	<i>Rhaid gosod, cynnal a gweithredu'r lle tân yn unol â'r manylebau canlynol:</i>	<i>Rhaid peidio â defnyddio unrhyw danwydd ac eithrio tanwyddau awdurdodedig a'r tanwydd neu'r tanwyddau canlynol:</i>
<p>WTH 150 ac WTH 200: boeleri.</p> <p>Gweithgynhrychwyd gan Hargassner Gesellschaft mit beschränkter Haftung (GmbH), Gunderding 8, A-4952, Weng, Awstria.</p>	<p>Llawlyfr gosod y gweithgynhrychyd "version 91 for Large Capacity Boiler WTH 150-200", sydd â'r cyfeirnod "BA GK V90b 0309".</p>	<p>Sglodion coed neu belenni coed ⁽¹⁾.</p>
<p>Xeoos 5kW: stof, fersiynau: Natur, Style, Harmony, Pur, Classic, Elegance a Stone;</p> <p>Xeoos 8kW: stof, fersiynau: Basic, Pur, Classic, Elegance Stone ac Air.</p> <p>Gweithgynhrychwyd gan Specht Modulare Ofensysteme GmbH & Co, KG i.V. Dipl.-Ing. Frank Werner Projektmanagement Bahnhofstr, 2 D 35116 Hatzfeld.</p>	<p>Y cyfarwyddiadau gosod a gweithredu sydd â'r cyfeirnod "Revisions — Index 01/08 Fassung Januar 2008" dyddiedig Ionawr 2008</p>	<p>Boncyffion coed sy'n cydymffurfio â DIN 51731 ⁽¹⁾.</p>
<p>Yeoman CL3 (3.8kW) ac CL5 (4.9kW): stofiau amldanwydd; Yeoman CL5 (4.9kW): stof losgi coed</p> <p>Gweithgynhrychwyd gan Stovax Ltd., Falcon Road, Sowerton Industrial Estate, Caerwysg, Dyfnaint, EX2 7LF.</p>	<p>Y llawlyfr cyfarwyddiadau sydd â'r cyfeirnod "PM489 Issue 1" dyddiedig Mehefin 2010 a llawlyfr cyfarwyddiadau'r pecyn rheoli mwg "PM491 Issue 1" dyddiedig 5 Ebrill 2010.</p> <p>Rhaid gosod stop parhaol ar yr offeryn i atal y rheolydd aer eilaidd rhag cau y tu hwnt i'r safle 50% agored.</p>	<p>Boncyffion coed ⁽¹⁾.</p>
<p>Yeoman CL 7 (7kW), cod y cynnyrch YM-CL7NMF: offeryn mewnosod.</p> <p>Gweithgynhrychwyd gan Stovax Ltd., Falcon Road, Sowerton Industrial Estate, Caerwysg, Dyfnaint, EX2 7LF.</p>	<p>Y llawlyfr cyfarwyddiadau sydd â'r cyfeirnod "PM553 - Issue 1" dyddiedig Mehefin 2011 a llawlyfr cyfarwyddiadau'r pecyn rheoli mwg sydd â'r cyfeirnod "PM491 Issue 2" dyddiedig Mehefin 2011.</p> <p>Rhaid gosod stop parhaol ar yr offeryn i atal y rheolydd aer eilaidd rhag cau y tu hwnt i'r safle 50% agored.</p>	<p>Boncyffion coed ⁽¹⁾.</p>
<p>Yeoman CL Milner, cod y cynnyrch, YM-CLMB: stof</p>	<p>Y llawlyfr cyfarwyddiadau sydd â'r cyfeirnod "PM559 -</p>	<p>Boncyffion coed ⁽¹⁾.</p>

<i>Dosbarth ar le tân</i>	<i>Yr Amodau</i>	
	<i>Rhaid gosod, cynnal a gweithredu'r lle tân yn unol â'r manylebau canlynol:</i>	<i>Rhaid peidio â defnyddio unrhyw danwydd ac eithrio tanwyddau awdurdodedig a'r tanwydd neu'r tanwyddau canlynol:</i>
Gweithgynhyrchwyd gan Stovax Ltd., Falcon Road, Sowerton Industrial Estate, Caerwysg, Dyfnaint, EX2 7LF.	Issue 1” dyddiedig Mehefin 2011 a llawlyfr cyfarwyddiadau’r pecyn rheoli mwg sydd â’r cyfeirnod “PM491 Issue 2” dyddiedig Mehefin 2011. Rhaid gosod stop parhaol ar yr offeryn i atal rheolydd aer eilaidd rhag cau y tu hwnt i’r safle 50% agored.	
Yeoman Devon - Amlndanwydd, top gwastad, 1 drws (9kW); Yeoman Devon - Amlndanwydd, top gwastad, 2 ddrws (9kW); Yeoman Devon - Amlndanwydd, canopi isel, 1 drws (9kW); Yeoman Devon - Amlndanwydd, canopi isel, 2 ddrws (9kW); Yeoman Devon - Amlndanwydd, canopi uchel, 1 drws (9kW); ac Yeoman Devon - Amlndanwydd, canopi uchel, 2 ddrws (9kW). Gweithgynhyrchwyd gan Stovax Ltd., Falcon Road, Sowerton Industrial Estate, Caerwysg, Dyfnaint, EX2 7LF.	Y llawlyfr cyfarwyddiadau sydd â’r cyfeirnod “PM184 Issue 3” dyddiedig Chwefror 2008 a llawlyfr cyfarwyddiadau’r pecyn rheoli mwg “PM403 Issue 1” dyddiedig Ionawr 2010. Rhaid gosod stop parhaol ar yr offeryn i atal y rheolydd aer eilaidd rhag cau y tu hwnt i’r safle 50% agored a rhaid gosod system sy’n sicrhau bod bwloch o 1mm ar gyfer gollyngiad aer drwy’r brif fewnfa pan fo’r olwynion troelli wedi eu cau i’r pen.	Boncyffion coed ⁽¹⁾ .
Yeoman Exmoor – Amlndanwydd, top gwastad (4.9kW); Yeoman Exmoor - Amlndanwydd, canopi isel (4.9kW); Yeoman Exe - Amlndanwydd, top gwastad, 1 drws (4.9kW); Yeoman Exe - Amlndanwydd, top gwastad, 2 ddrws (4.9kW); Yeoman Exe - Amlndanwydd, canopi isel, 1 drws (4.9kW); ac Yeoman Exe - Amlndanwydd, canopi isel, 2 ddrws (4.9kW). Gweithgynhyrchwyd gan Stovax Ltd., Falcon Road, Sowerton Industrial Estate, Caerwysg, Dyfnaint, EX2 7LF.	Y llawlyfr cyfarwyddiadau sydd â’r cyfeirnod “PM184 Issue 3” dyddiedig Chwefror 2008 a llawlyfr cyfarwyddiadau’r pecyn rheoli mwg “PM403 Issue 1” dyddiedig Ionawr 2010. Rhaid gosod stop parhaol ar yr offeryn i atal y rheolydd aer eilaidd rhag cau y tu hwnt i’r safle 60% agored, a system i atal y prif reolyddion aer rhag cau yn llwyr.	Boncyffion coed ⁽¹⁾ .
York Grande SE, Serrano 7SE, Monterrey 7SE a Monroe 7SE: stofiau amlndanwydd.	Y llawlyfr cyfarwyddiadau sydd â’r cyfeirnod “GB12A Version 1” dyddiedig	Boncyffion coed ⁽¹⁾ .

<i>Dosbarth ar le tân</i>	<i>Yr Amodau</i>	
	<i>Rhaid gosod, cynnal a gweithredu'r lle tân yn unol â'r manylebau canlynol:</i>	<i>Rhaid peidio â defnyddio unrhyw danwydd ac eithrio tanwyddau awdurdodedig a'r tanwydd neu'r tanwyddau canlynol:</i>
Gweithgynhychwyd gan Broseley Fires Ltd., Knights Way, Battlefield Enterprise Park, Amwythig, Swydd Amwythig, SY1 3AB.	Chwefror 2013. Rhaid gosod system ar yr offeryn i atal y llithrydd aer eilaidd rhag cau y tu hwnt i'r safle 10mm agored.	
York Midi SE, Serrano 5 SE, Monterrey 5 SE a Monroe 5 SE: stofiau amltanwydd. Gweithgynhychwyd gan Broseley Fires Ltd., Knights Way, Battlefield Enterprise Park, Amwythig, Swydd Amwythig, SY1 3AB.	Y llawlyfr cyfarwyddiadau sydd â'r cyfeirnod "GB12A Version 1" dyddiedig Chwefror 2013. Rhaid gosod system ar yr offeryn sy'n atal y llithrydd aer eilaidd rhag cau y tu hwnt i'r safle 8mm agored.	Boncyffion coed ⁽¹⁾ .
Zaragoza Model F9437, Granada model F9437 G, Zaragoza Exclusive model F9437 E, Zaragoza Plus model F9437 P, Zaragoza Top model F9437 T, Zaragoza Box model F9437 B, Caen ceramic model F9437 C a, Caen soapstone model F9437 S 5kW: stofiau amltanwydd gweithgynhychwyd gan THORMA Vyroba k.s., Šavoľská cesta 323/1, 986 01, Fiľakovo-Priemysel'ny' obvod, Slofacia.	Y llawlyfr Gosod a Gweithredu dyddiedig 27 Gorffennaf 2015 sydd â'r cyfeirnod "ZARAGOZA – Version A". Rhaid gosod rheolydd aer addasedig ar yr offeryn i gadw agorfa barhaol o 388mm ² pan fo wedi ei gau i'r pen.	Boncyffion coed ⁽¹⁾ .

⁽¹⁾ Rhaid i'r tanwydd beidio â chynnwys cyfansoddion organig halogenaidd na metelau trwm o ganlyniad i'w drin â chadwolion pren neu gaenau.

EXPLANATORY MEMORANDUM TO
THE SMOKE CONTROL AREAS (EXEMPTED CLASSES OF FIREPLACE)
(WALES) ORDER 2016

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Department for Environment and Rural Affairs and is laid before the National Assembly for Wales in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

Minister's Declaration

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Smoke Control Areas (Exempted Classes of Fireplace) (Wales) Order 2016.

Lesley Griffiths AM
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs
29 July 2016

(i) Description

The Smoke Control Areas (Exempted Classes of Fireplace) (Wales) Order 2016 (2016 Order) revokes and replaces with amendments the Smoke Control Areas (Exempted Fireplaces) (Wales) Order 2015 (S.I. 2015/1513) (W.175).

This 2016 Order allows the use (subject to strict conditions) of a number of boilers and stoves capable of smokeless operation within smoke control areas. These fireplaces do not burn the fuels generally authorised for use in such areas, and consequently have been assessed and are considered to be capable of meeting, or have met, the requirements of BS PD 6434.

(ii) Matters of special interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee

None.

(iii) Legislative Background

The enabling power is contained in section 21(5) of the Clean Air Act 1993 (1993 Act).

This power was originally conferred on the Secretary of State but was, so far as exercisable in relation to Wales, transferred to the National Assembly for Wales by virtue of article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999/672. This power is now exercisable by the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006.

This Statutory Instrument is subject to the negative resolution procedure.

(iv) Purpose and intended effect of the legislation

Section 18(1) of the 1993 Act enables local authorities to declare the whole or part of their area a smoke control area by making a "smoke control order". In Wales there are currently four partial smoke control areas in Flintshire, Newport, Swansea and Wrexham. Section 20(1) of the 1993 Act places a general prohibition on the emission of smoke in smoke control areas.

However, anyone burning fuel in a smoke control area can avoid contravention of the 1993 Act by either using an authorised fuel (not relevant here), or by using an "exempted fireplace". "Fireplace" is defined in section 64(1) of the 1993 Act as including any open or closed stoves or furnaces as well as grates. Section 21(5) of the 1993 Act enables exemptions to be made, by order, of classes of fireplaces from the prohibition of smoke emissions if they are capable of burning fuels without producing any smoke or substantial quantities of smoke.

It follows from this that a person using an exempted fireplace can be confident (so long as they comply with any conditions imposed by the order) that they

will not contravene the 1993 Act. Following the specified tests by the Welsh Government's preferred testing centre, Ricardo-AEA, it is proposed to add the fireplaces to those exempted at article 2 of the Schedule to the 2016 Order.

(v) Consultation

It was not deemed necessary to consult as the Order will not amend the regime of smoke control within Wales, but will ensure the regime is brought up to date by adding further classes of appliances to those which are already exempted for use in smoke control areas. In addition, the 2016 Order will not affect policy relating to air quality control. Those appliances proposed for exemption in this order have been subject to a detailed and quantitative emissions testing protocol.

(vi) Implementation

If the Welsh Ministers were not to exempt approved appliances from the provisions of section 20 of the 1993 Act within a reasonable time, then there is a risk that manufacturers will in practice be unable to market and sell their products effectively within smoke control areas in Wales.

(vii) Regulatory Impact Assessment

The proposed legislation imposes no costs on the public, private, charities or voluntary sector, therefore no RIA is deemed necessary.

Mark Drakeford AM/AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref:

Annwyl Simon,

13 Medi 2016

BIL TRETH TRAFODIADAU TIR A GWRTHWEITHIO OSGOI TRETHI DATGANOLEDIG (CYMRU)

Gweler ynghlwm ddatganiad o fwriad y polisi i gefnogi proses graffu'r Pwyllgor ar y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru), a gyflwynais i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 12 Medi. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth am fwriad y polisi ar gyfer y pwerau dirprwyedig yn y Bil, os caiff ei ddeddfu.

Hyderaf y bydd y ddogfen hon yn ddefnyddiol i'r Aelodau ac rwy'n edrych ymlaen at ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor maes o law.

Mae copiâu o'r llythyr hwn a'r atodiad y cyfeirir ato yn cael eu hanfon hefyd at Huw Irranca-Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir

Mark.

Mark Drakeford AM/AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

CC: Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 257



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BIL TRETH TRAFODIADAU TIR A GWRTHWEITHIO OSGOI TRETHI DATGANOLEDIG (CYMRU)

Bwriad y polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud o dan y Bil hwn

Medi 2016

BIL TRETH TRAFODIADAU TIR A GWRTHWEITHIO OSGOI TRETHI DATGANOLEDIG (CYMRU) BWRIAD Y POLISI AR GYFER IS-DDEDDFWRIAETH

Mae'r ddogfen hon yn nodi bwriad y polisi ar hyn o bryd ar gyfer is-ddeddfwriaeth y mae gan Weinidogion Cymru bŵer i'w gwneud, neu sy'n ofynnol iddynt ei gwneud, o dan ddarpariaethau Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi (Cymru) ('y Bil'). Mae wedi ei chyhoeddi er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor cyfrifol yn ystod y broses o graffu ar y Bil a dylid ei darllen ar y cyd â Phennod 5 y Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol.

Y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) yw'r ail o dri bil i sefydlu trefniadau treth datganoledig yng Nghymru. Mae'r Bil hwn yn dilyn Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, sy'n darparu'r pwerau a'r dyletswyddau i gasglu'r dreth, a bydd bil i sefydlu Treth Gwarediadau Tirlenwi (LDT) yn dilyn y Bil hwn.

Diben y Bil hwn yw cyflwyno "Treth Trafodiadau Tir" (LTT), a fydd yn disodli Treth Dir Treth Stamp y DU (SDLT) yng Nghymru o fis Ebrill 2018, yn ogystal â mesurau i fynd i'r afael ag osgoi trethi datganoledig. Yn benodol, mae'r Bil yn darparu ar gyfer:

- egwyddorion allweddol LTT, megis y mathau o drafodiad a fydd yn denu tâl i LTT a phwy fydd yn atebol i dalu LTT;
- y weithdrefn ar gyfer pennu cyfraddau a bandiau treth;
- sut y caiff y dreth ei chyfrifo a pha ryddhadau allai fod yn gymwys;
- mesurau penodol i fynd i'r afael ag osgoi trethi datganoledig
- cymhwyso'r Bil mewn perthynas â lesioedd;
- y darpariaethau penodol sy'n gymwys i amrywiaeth o bersonau a chyrrff mewn perthynas ag LTT;
- y ddarpariaeth ar gyfer llenwi ffurflen trafodiadau tir a thalu'r dreth; a
- dyletswyddau ar drethdalwyr i wneud taliadau a thalu cosbau a llog o dan rai amgylchiadau.

Mae adran 79 y Bil yn nodi y bydd darpariaethau penodol a amlinellir yn Rhan 8 yn dod i rym ar y diwrnod y bydd y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol. Cychwynnir y darpariaethau eraill yn y Bil gan Orchymyn.

Adran	Disgrifiad	Bwriad y polisi
RHAN 2: Y DRETH A'R PRIF GYSYNIADAU		
Adran 5(4)	Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ychwanegu, diwygio neu ddigelu buddiannau sy'n esempt rhag codi Treth Trafodiadau Tir (LTT) arnynt.	<p>Mae adran 5 yn darparu rhestr o fuddiannau sy'n esempt rhag codi LTT arnynt. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu at y categorïau o fuddiannau esempt, neu amrywio disgrifiad o fuddiant esempt sy'n bodoli eisoes. Mae hefyd yn galluogi i fuddiant a restrir beidio â bod yn fuddiant esempt mwyach. Y bwriad yw i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio i adlewyrchu newidiadau i bolisiau a/neu newidiadau yn sefyllfa'r economi a'r farchnad eiddo ar y pryd, megis pan fydd buddiant esempt yn peidio â bodoli yn y gyfraith, neu pan fydd y rheolau ynghylch buddiant esempt yn cael eu camddefnyddio fel rhan o drefniant osgoi trethi.</p> <p>Darperir ar gyfer pŵer tebyg yn adran 48(5) o Ddeddf Cyllid 2003, ac adran 5(4) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (yr Alban) 2013.</p>
Adran 18(2)	Caiff gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio neu ddiddymu darpariaethau sy'n ymwneud â'r hyn sydd i gyfrif fel cydnabyddiaeth drethadwy a sut y caiff swm y gydnabyddiaeth drethadwy ei bennu.	<p>Mae adrannau 18 i 23 ac Atodlen 4 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â sut y caiff swm y gydnabyddiaeth drethadwy ei bennu ar gyfer trafodiad. Y bwriad yw i'r pŵer i ddiwygio'r rheolau a ddefnyddir i bennu swm y gydnabyddiaeth drethadwy gael ei ddefnyddio i adlewyrchu newidiadau i bolisiau a/neu sefyllfa'r economi a'r farchnad eiddo ar y pryd, neu i atal gweithgarwch osgoi trethi.</p> <p>Mae'r pŵer hwn yn adlewyrchu adran 50(2) o Ddeddf Cyllid 2003 ac adran 17(2) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (yr Alban) 2013.</p>
RHAN 3: CYFRIFO TRETH A RHYDDHADAU		
Adran 24(1)	<p>Rhaid i Weinidogion Cymru bennu drwy reoliadau y set gyntaf o fandiau treth a chyfraddau treth canrannol ar gyfer pob band sy'n gymwys i drafodiadau eiddo preswyl ac amhreswyl.</p> <p>Yn dilyn hynny, caiff Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer i amrywio bandiau treth a chyfraddau treth canrannol.</p>	Mae'r gallu i bennu ac amrywio cyfraddau a bandiau treth yn nodweddiadol o'r system dreth. Mae'r pŵer yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu'r cyfraddau a bandiau cychwynnol sy'n gymwys i LTT ac yn rhoi pŵer iddynt amrywio cyfraddau a bandiau treth yn y dyfodol. Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu ac amrywio'r cyfraddau a bandiau treth yn ddi-oed, i adlewyrchu amrywiadau yn sefyllfa'r economi neu'r farchnad eiddo yn ehangach, yn ogystal â newidiadau i bolisiau ehangach.

		<p>Bydd y set gyntaf o reoliadau a wneir o dan y pŵer hwn yn destun i'r weithdrefn gadarnhaol, a bydd rheoliadau dilynol yn destun i'r weithdrefn gadarnhaol dros dro. Bydd y weithdrefn hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud amrywiadau dros dro i'r cyfraddau a bandiau ar fyr rybudd, gan gadw swyddogaeth y Cynulliad o gymeradwyo unrhyw amrywiad parhaol.</p> <p>Mae'r pŵer hwn yn debyg i adran 24(1) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (yr Alban) 2013.</p>
Adran 30(6)	<p>Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer, drwy reoliadau, i gyflwyno rhyddhadau newydd, diwygio rhyddhadau presennol, dileu rhyddhad yn gyfan gwbl neu addasu adran 31 (rhyddhad: gwrthweithio osgoi trethi).</p>	<p>Mae adran 30(1) yn cyflwyno cyfres o atodlenni sy'n rhyddhau trafodiadau penodol rhag talu LTT. Bydd y pŵer hwn yn galluogi gweinidogion Cymru i gyflwyno rhyddhad newydd, amrywio rhyddhadau presennol neu ddileu rhyddhad yn gyfan gwbl. Byddai'n cael ei ddefnyddio i adlewyrchu newidiadau i bolisiau a/neu i ymateb i newidiadau yn sefyllfa'r economi a'r farchnad eiddo yn y dyfodol neu i atal gweithgarwch osgoi trethi.</p> <p>Ceir defnyddio'r pŵer i addasu adran 31 hefyd. Mae'r adran honno'n gwahardd hawlio rhyddhad fel rhan o drefniant osgoi trethi. Y bwriad yw i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio i wneud newidiadau i'r ffordd y gweithredir y rheol, er enghraifft i addasu ystyr "trefniant" neu "treth" yn sgil creu treth newydd neu fath newydd o drefniant.</p> <p>Gwneir darpariaeth debyg yn adran 27(3) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (yr Alban) 2013.</p>
RHAN 5: CYMHWYSO'R DDEDDF A'R DDEDDF CASGLU A RHEOLI TRETHI I BERSONAU A CHYRFF PENODOL		
Adran 33(7)	<p>Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth bellach ynghylch cymhwyso'r Ddeddf hon, neu'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi, i gwmnïau neu ddisgrifiad o gwmni a bennir yn y rheoliadau.</p>	<p>Mae adran 33 yn gwneud darpariaeth ynghylch cymhwyso'r Bil hwn a'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i gwmnïau. Y bwriad yw i'r pŵer hwn alluogi i newidiadau gael eu gwneud i'r ffordd y caiff y Bil ei gymhwyso i gwmnïau pe byddai'n dod yn amhriodol i'r darpariaethau sy'n ymwneud â chwmnïau fod yn gymwys, neu pe byddai angen darpariaeth bellach i gadarnhau sut y mae'r dreth yn gymwys i gwmnïau.</p>

Adran 34(6)	Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, bennu na ddylid trin math penodol o gynllun ymddiriedolaeth unedol fel cynllun o'r fath at ddiben y Bil hwn a'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi.	Y bwriad yw i'r pŵer hwn alluogi i newidiadau gael eu gwneud pan fydd mathau newydd o gynlluniau ymddiriedolaeth unedol yn codi a'i bod yn dod yn amhriodol i'r ddarpariaeth ar gynlluniau ymddiriedolaeth unedol fod yn gymwys. Darperir ar gyfer pŵer tebyg yn adran 101(5) o Ddeddf Cyllid 2003 ac adran 45(6) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (yr Alban) 2013.
Adran 35(1)	Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu sut y bydd Bil a'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi yn gymwys i gwmnïau buddsoddi penagored.	Y bwriad yw i'r pŵer hwn alluogi i newidiadau gael eu gwneud i'r ffordd y caiff y Bil a'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi eu cymhwyso i drafodiadau gan gwmnïau buddsoddi penagored, fel eu bod yn cael eu trin mewn modd tebyg i drafodiadau gan ymddiriedolaethau unedol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y ddau fath o gyfrwng buddsoddi'n cael eu trin yr un fath, ar y cyfan. Darperir ar gyfer pŵer tebyg yn adran 102(1) o Ddeddf Cyllid 2003 ac adran 46(1) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (yr Alban) 2013.
Adran 40(2)	Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio Atodlen 6 o ran cymhwyso'r Bil a'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i bartneriaethau.	Mae Atodlen 6 yn gwneud darpariaeth ynghylch cymhwyso'r Bil hwn a'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i bartneriaethau. Y bwriad yw i'r pŵer hwn alluogi i newidiadau gael eu gwneud i'r rheolau hyn i adlewyrchu unrhyw newid i'r ffordd y mae partneriaethau'n gweithredu, neu i atal gweithgarwch osgoi trethi. Darperir ar gyfer pŵer tebyg yn adran 49(2) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (yr Alban) 2013.
Adran 41(2)	Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio Atodlen 7 o'r Bil mewn perthynas â chymhwyso'r Bil a'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i ymddiriedolaethau.	Mae Atodlen 7 yn gwneud darpariaeth ynghylch cymhwyso'r Bil hwn a'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i ymddiriedolaethau. Y bwriad yw i'r pŵer hwn alluogi i newidiadau gael eu gwneud i'r rheolau hyn i adlewyrchu unrhyw newid i'r ffordd y mae ymddiriedolaethau'n gweithredu, neu i atal gweithgarwch osgoi trethi. Darperir ar gyfer pŵer tebyg yn adran 50(2) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (yr Alban) 2013.

RHAN 6: FFURFLENNI TRETH A THALIADAU

Adran 45(10)	Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio'r pwynt lle mae swm y gydnabyddiaeth drethadwy a'r rhent perthnasol yn gwneud trafodiad yn drafodiad hysbysadwy.	<p>Mae adran 45(3) yn gwneud darpariaeth sy'n nodi nad yw caffael prif fuddiant mewn tir yn drafodiad hysbysadwy pan fo'r gydnabyddiaeth drethadwy, ynghyd ag unrhyw drafodiad cysylltiedig, yn llai na £40,000. Mae is-adrannau (6) a (7) hefyd yn cyflwyno trothwyon lle mae grantiau, aseiniadau ac ildio les yn peidio â bod yn drafodion hysbysadwy.</p> <p>Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r trothwyon hyn i weithredu newidiadau polisi ynghylch trafodiadau'n hysbysadwy, er enghraifft o ganlyniad i newidiadau i gyfraddau neu fandiau trethi, neu i leihau'r baich gweinyddol ar drethdalwyr mewn trafodion isel eu gwerth.</p> <p>Gwneir darpariaeth debyg yn adran 30(7) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (yr Alban) 2013.</p>
Adran 46(5)	Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio hyd y cyfnod cyn codi llog ar daliadau hwyr pan fo digwyddiad dibynnol yn dod i ben neu ganfod cydnabyddiaeth.	<p>Bwriedir defnyddio'r pŵer hwn os yw dyddiad ffeilio'r ffurflen dreth (dan adran 43) yn cael ei newid (drwy reoliadau dan adran 51). Byddai hyd y cyfnod cyn codi llog ar daliadau hwyr yn cael ei ddiwygio i gyfateb i'r cyfnod hwnnw.</p> <p>Darperir ar gyfer pŵer tebyg yn adran 39(1) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (yr Alban) 2013.</p>
Adran 48(5)	Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio hyd y cyfnod cyn codi llog ar daliadau hwyr pan dynnir rhyddhad yn ôl.	<p>Bwriedir defnyddio'r pŵer hwn os yw dyddiad ffeilio'r ffurflen dreth (dan adran 43) yn cael ei newid. Byddai hyd y cyfnod cyn codi llog ar daliadau hwyr yn cael ei ddiwygio i gyfateb i'r cyfnod hwnnw.</p> <p>Darperir ar gyfer pŵer tebyg yn adran 39(1) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (yr Alban) 2013.</p>
Adran 51(1)	Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio hyd y cyfnod y mae'n rhaid cyflwyno ffurflen dreth trafodiadau tir o'i fewn.	<p>Bwriedir i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio pe bai rheswm cryf dros ddiwygio hyd y cyfnod y mae'n rhaid cyflwyno ffurflen dreth o'i fewn.</p> <p>Darperir ar gyfer pŵer tebyg yn adran 76(2) o Ddeddf Cyllid 2003 ac adran 39(1) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (yr Alban) 2013.</p>
Adran 63(1)	Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth bellach am geisiadau i ohirio talu treth, gan gynnwys darpariaethau yn ymwneud â rhent (nad yw'n ddarostyngedig i reolau ar ohirio), rheolau	Mae'r pŵer hwn yn angenrheidiol er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi manylion pellach, yn ogystal â galluogi Awdurdod Cyllid Cymru i osod amrywiadau i gytundebau os bydd trethdalwyr yn ceisio manteisio ar y

	yn ymwneud â chontractau am waith neu wasanaethau, a diwygiadau i adran 61 i alluogi Awdurdod Cyllid Cymru i gytuno i osod amrywiadau i drefniadau gohirio a wnaed yn y gorffennol.	rheolau ynghylch gohirio. Darperir ar gyfer pŵer tebyg yn adran 90(2) o Ddeddf Cyllid 2003 ac adran 42(1) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (yr Alban) 2013.
Adran 64(5)	Nid oes modd i'r Prif Gofrestrydd Tir gofrestru trafodiad tir oni bai bod tystysgrif Awdurdod Cyllid Cymru gyda'r cais i gofrestru. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch tystysgrifau Awdurdod Cyllid Cymru, gan gynnwys yr amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn i dystysgrif gael ei rhoi; dyroddi tystysgrifau dyblyg; a dyroddi tystysgrifau lluosog.	Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu arfer y pŵer hwn i ragnodi ffurf tystysgrif Awdurdod Cyllid Cymru, a all amrywio i adlewyrchu newidiadau yng ngweithrediad Awdurdod Cyllid Cymru neu'r Gofrestrfa Tir yn y dyfodol. Mae hyn yn adlewyrchu'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 79(4) o Ddeddf Cyllid 2003.
RHAN 8: DEHONGLI A DARPARIAETHAU TERFYNOL		
Adran 71(10)	Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, newid neu egluro achosion pan fo'r defnydd o adeilad, neu pan na fo'r defnydd o adeilad, yn ddefnydd o adeilad fel annedd, neu newid nifer yr anheddau a brynir mewn trafodiad unigol y gellid diffinio fel trafodiad 'amhreswyl' (neu ddiddymu'r rheol honno).	Mae Adran 71(4) a (5) yn darparu rhestr o adeiladau o ddisgrifiad penodol sy'n cael eu trin, neu nad ydynt yn cael eu trin, fel anheddau. Bwriedir i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio i roi sylw i unrhyw newidiadau polisi yn y dyfodol. Darperir ar gyfer Pwerau tebyg yn adran 116(8) o Ddeddf Cyllid 2003 ac adran 59(9) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (yr Alban) 2013.
Adran 76(1)	Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaethau cysylltiedig, atodol, canlyniadol, trosiannol, darfodol neu arbed i roi effaith lawn i ddarpariaeth yn y Bil.	Byddai'r pŵer hwn ond yn cael ei ddefnyddio ar gyfer materion fel gwneud newidiadau angenrheidiol i ddeddfwriaeth arall o ganlyniad i ddarpariaethau'r Bil hwn, neu ymdrin â manylion na ragwelwyd, sy'n codi wrth roi'r system newydd ar waith. Lluniwyd elfennau trosiannol, arbed a chanlyniadol i fynd i'r afael â'r broses o symud o un drefn treth trafodiad tir i un arall, fel bod y broses mor llyfn â phosib a bod y gyfraith newydd yn gweithredu yn unol â'r bwriad. Darperir ar gyfer pwerau tebyg yn adran 109 o Ddeddf Cyllid 2003 ac adran 67 o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (yr Alban) 2013.
ATODLEN 3: TRAFODIADAU ESEMPT RHAG CODI TRETH		
Paragraff 7 o Atodlen 3	Mae atodlen 3 yn darparu rhestr o drafodiadau sy'n esempt rhag codi treth trafodion tir arnynt. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau a wnaed dan baragraff 7 atodlen 3, ychwanegu, diwygio neu ddigelu	Bwriedir i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio i adlewyrchu newidiadau polisi mewn perthynas â thrafodiadau esempt.

	trafodiad esempt.	Darperir ar gyfer pwerau tebyg ym mharagraff 5 o atodlen 3 Deddf Cyllid 2003 a pharagraff 8 o atodlen 1 Deddf Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (yr Alban) 2013.
ATODLEN 5: LESOEDD		
Paragraff 27(2) o Atodlen 5	Mae Paragraff 27(1) o Atodlen 5 yn darparu na fydd treth yn cael ei chodi ar elfen rhent les preswyl pan fydd yn cael ei rhoi. Mae Paragraff 27(2) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru newid y sefyllfa hon er mwyn medru codi treth ar elfen rhent lesioedd preswyl.	Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymestyn cwmpas y Dreth Trafodion Tir i gynnwys elfen rhent lesioedd preswyl os oes angen yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, ychydig o refeniw a geir drwy godi treth ar elfen rhent lesioedd preswyl yng Nghymru (£10,000 yn 2014/15). Fodd bynnag, gall Gweinidogion Cymru ddymuno arfer y pŵer hwn os bydd newidiadau ymddygiad yn y dyfodol yn golygu y dylid codi treth ar elfen rhent lesioedd preswyl sydd newydd eu rhoi yn sgil cynnydd yn y rhent sy'n daladwy a hyd y lesioedd, neu o bosib i wrthweithio gweithgarwch osgoi trethi.
Paragraff 28(1) o Atodlen 5	Mae'r Dreth Trafodion Tir yn daladwy ar elfen rhent lesioedd amhreswyl neu lesioedd cymysg wrth gael eu rhoi. Rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau a wnaed dan baragraff 28(1) o Atodlen 5, ragnodi'r bandiau treth a'r cyfraddau trethi canrannol sy'n berthnasol ar gyfer y gydnabyddiaeth drethadwy sy'n cynnwys rhent. Hefyd mae gan Weinidogion Cymru bŵer dan yr adran hon i amrywio cyfraddau a bandiau yn y dyfodol.	Mae'r pŵer hwn yn angenrheidiol er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i osod ac amrywio'r cyfraddau a'r bandiau ar gyfer elfen rhent lesioedd preswyl a chymysg i adlewyrchu newidiadau polisi a/neu ymateb i newidiadau yn yr amodau economaidd neu'r farchnad eiddo yn y dyfodol. Bydd y set gyntaf o reoliadau a wneir o dan y pŵer hwn yn destun i'r weithdrefn gadarnhaol, a bydd rheoliadau dilynol yn destun i'r weithdrefn gadarnhaol dros dro. Bydd y weithdrefn hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud amrywiadau dros dro i'r cyfraddau a bandiau ar fyr rybudd, gan gadw swyddogaeth y Cynulliad o gymeradwyo unrhyw amrywiad parhaol. Darperir ar gyfer pŵer tebyg ym mharagraff 3(1) o atodlen 19 Deddf Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (yr Alban) 2013.
Paragraff 32 o Atodlen 5	Mae Paragraff 32 yn darparu bod y gyfradd ddisgownt amser yn cael ei gosod ar 3.5%. Mae'r gyfradd ddisgownt amser yn ffurfio rhan o fformiwla ehangach sy'n cael ei defnyddio i gyfrifo gwerth net presennol taliadau rhent yn y dyfodol. Caiff Gweinidogion Cymru bennu cyfradd ddisgownt amser amgen drwy reoliadau.	Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i amrywio'r gyfradd ddisgownt amser yn y dyfodol i adlewyrchu amodau economaidd a'r farchnad eiddo ar y pryd. Darperir ar gyfer pŵer tebyg ym mharagraff 8 o atodlen 5 Deddf Cyllid 2003 a pharagraff 7 o atodlen 19 Deddf Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (yr Alban) 2013.
Paragraff 36(1)	Caiff Gweinidogion Cymru bennu swm y rhent perthnasol at ddibenion	Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod swm y "rhent

o Atodlen 5	gosod swm y dreth y dylid ei chodi yn achos caffael lesoedd amhreswyl neu gymysg newydd pan fo'r les yn darparu ar gyfer rhent a chydabyddiaeth ac eithrio rhent (er enghraifft premiwm).	perthnasol" ac amrywio'r swm hwnnw yn y dyfodol i adlewyrchu amodau economaidd a'r farchnad eiddo ar y pryd. Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i sicrhau bod trethdalwyr yn talu swm teg o dreth, ac nad oes modd iddynt elwa'n annheg ar fanciau treth cyfradd sero ar gyfer rhent a chydabyddiaeth ac eithrio rhent.
ATODLEN 10: RHYDDHAD AR GYFER BONDIAU BUDDSODDI ERAILL		
Paragraffau 8(1), 9(1), 12(b), 16, a 18(5) o Atodlen 10	Mae Atodlen 10 yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhyddhad yn achos trafodiadau tir penodol sy'n gysylltiedig â bondiau buddsoddi cyllid eraill. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer dan baragraffau 8(1), 9(1), 12(b), 16 ac 18(5) i ragnodi darpariaethau pellach mewn rheoliadau ar gyfer gweithredu'r rhyddhad.	Bwriedir i'r pŵer alluogi newidiadau wrth ymdrin â bondiau buddsoddi cyllid eraill, er mwyn adlewyrchu newidiadau yng ngweithrediad y bondiau hynny. Darperir ar gyfer pwerau tebyg ym mharagraffau 5(4), 5(6), 5(12), 9, ac 18(6) o atodlen 61 Deddf Cyllid 2009 a pharagraffau 10(1), 11(1), 14(2), 20, a 21(6) o atodlen 8 Deddf Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (yr Alban) 2013.
ATODLEN 12: RHYDDHAD AR GYFER CAFFAELIADAU SY'N YMWNEUD AG ANHEDDAU LLUOSOG		
Paragraff 6(6) o Atodlen 12	Mae atodlen 12 yn berthnasol pan fo anheddau lluosog yn cael eu caffael gan unigolyn drwy drafodiad unigol. Mae'r rhyddhad yn sicrhau nad yw trafodiad unigol sy'n cynnwys anheddau lluosog yn cael ei drethu ar gyfradd uwch pe bai llai o dreth yn cael ei chodi ar yr anheddau o'u caffael mewn trafodion ar wahân. Gwneir hyn drwy gyfrifo'r pris cyfartalog fesul annedd, canfod y rhwymedigaeth ar gyfer treth am y pris cyfartalog hwnnw, a lluosgi hynny gyda nifer yr anheddau a gafodd eu caffael. Os yw'r cyfrifiad yn arwain at bris cyfartalog fesul annedd sydd â rhwymedigaeth treth is nag (ar hyn o bryd) 1% o gyfanswm y gydnabyddiaeth sy'n cael ei rhoi, bydd lleiafswm cyfradd dreth o 1% o gyfanswm y gydnabyddiaeth yn berthnasol yn lle hynny. Mae paragraff 6(6) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r canrannau hyn.	Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i amrywio lleiafswm canran y dreth sy'n daladwy ar gyfer rhyddhad anheddau lluosog er mwyn adlewyrchu amodau economaidd a'r farchnad eiddo ar y pryd, ac i sicrhau bod trethdalwyr yn parhau i dalu cyfran deg o dreth. Darperir ar gyfer pŵer tebyg ym mharagraff 12 o atodlen 5 Deddf Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (yr Alban) 2013.
ATODLEN 14: RHYDDHAD AR GYFER TRAFODION PENODOL SY'N YMWNEUD Â THAI CYMDEITHASOL		
Paragraff 2(3) o	Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i ragnodi person fel corff sector cyhoeddus perthnasol at ddibenion	Mae'r pŵer hwn yn galluogi'r rheoliadau i adlewyrchu newidiadau megis

Atodlen 14	rhyddhad ar gyfer trafodion hawl i brynu.	creu corff cyhoeddus newydd. Darperir ar gyfer pŵer tebyg ym mharagraff 1 o Atodlen 9 Deddf Cyllid 2003.
ATODLEN 16: RHYDDHAD ATGYFANSODDI A RHYDDHAD CAFFAEL		
Paragraff 3(1) o Atodlen 16	Mewn achosion lle bo rhyddhad caffael yn cael ei hawlio, bydd swm y dreth sy'n cael ei chodi yn cael ei bennu gan baragraff 3(1) o atodlen 16. Mae'r Bil ar hyn o bryd yn darparu yn yr achosion hyn bod swm y dreth sy'n cael ei chodi'n cael ei gyfyngu i 0.5% o'r gydnabyddiaeth drethadwy a roddir ar gyfer y trafodiad. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio'r ganran hon.	Bwriedir i'r pŵer hwn adlewyrchu newidiadau polisi tuag at ryddhad caffael a/neu amodau economaidd a'r farchnad eiddo. Darperir ar gyfer pŵer tebyg ym mharagraff 6(3) o atodlen 11 Deddf Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (yr Alban) 2013.
ATODLEN 19: RHYDDHAD AR GYFER CAFFAELIADAU GAN GYRFF CYHOEDDUS A CHYRFF IECHYD		
Paragraff 1(2) o Atodlen 19	Pan roddir effaith i drafodiad o ganlyniad i ad-drefnu statudol o'r sector cyhoeddus, bydd fel rheol yn cael ei ryddhau rhag treth gan fod y prynwr a'r gwerthwr ill dau yn gyrff cyhoeddus. Mae paragraff 1(2) o atodlen 19 yn rhoi pŵer i Weiniogion Cymru, drwy reoliadau, ddynodi bod trafodiad penodol yn cael ei ryddhau rhag y Dreth Trafodion Tir pan fo'r trafodiad yn syrthio o dan ofynion penodol y rheoliadau ond lle mai dim ond y prynwr neu'r gwerthwr sy'n gorff cyhoeddus.	Mae'r pŵer hwn yn galluogi i reoliadau gael eu gwneud mewn achosion lle dylai trafodion yn ymwneud ag ad-drefnu sector cyhoeddus gael rhyddhad rhag y Dreth Trafodion Tir, ond nad ydyw gan nad yw naill ai'r prynwr neu'r gwerthwr yn gorff cyhoeddus penodol. Darperir ar gyfer pwerau tebyg yn adran 66(2) o Ddeddf Cyllid 2003 a pharagraff 2 o atodlen 16 Deddf Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (yr Alban) 2003.
Paragraff 1(4) o Atodlen 19	Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, enwi personau ychwanegol a fydd yn cyfrif fel cyrff cyhoeddus.	Mae'r pŵer hwn yn galluogi'r rheoliadau i adlewyrchu newidiadau megis creu corff cyhoeddus newydd. Darperir ar gyfer pwerau tebyg yn adran 66(4) o Ddeddf Cyllid 2003 a pharagraff 4 o atodlen 16 Deddf Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (yr Alban) 2003.
Paragraff 2 o Atodlen 19	Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, enwi personau ychwanegol a fydd yn cyfrif fel cyrff gwasanaethau iechyd at	Mae'r pŵer hwn yn galluogi'r rheoliadau i adlewyrchu newidiadau megis creu corff iechyd newydd.

	ddibenion rhyddhad ar gyfer caffaeliadau gan gyrrff iechyd.	
ATODLEN 20: RHYDDHAD PRYNU GORFODOL A RHYDDHAD RHWYMEDIGAETHAU CYNLLUNIO		
Paragraff 2(3) o Atodlen 20	Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, enwi personau ychwanegol a fydd yn gymwys i gael rhyddhad am gydymffurfio â rhwymedigaethau cynllunio.	Mae'r pŵer hwn yn galluogi'r rheoliadau i adlewyrchu newidiadau megis creu corff cyhoeddus newydd. Darperir ar gyfer pwerau tebyg yn adran 61(3) o Ddeddf Cyllid 2003 a pharagraff 5 o atodlen 15 Deddf Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (yr Alban) 2013.
ATODLEN 22: DIWYGIADAU I DDEDDF CASGLU A RHEOLI TRETHI (CYMRU) 2016		
Paragraff 7 o Atodlen 22	Mae paragraff 7 o atodlen 22 (adran newydd 39A Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru bennu, mewn rheoliadau, disgrifiadau o gofnodion a dogfennau ategol y mae'n ofynnol eu cadw mewn perthynas â ffurflenni treth.	Mae'r pŵer hwn er mwyn galluogi i reoliadau gael eu gwneud sy'n gosod manylion pa gofnodion y mae'n rhaid i drethdalwyr eu cadw ar ôl dychwelyd ffurflen dreth, a pha rai y gellir eu diweddaru. Darperir ar gyfer pwerau tebyg ym mharagraff 9(4) o atodlen 10 Deddf Cyllid 2003 ac adran 74(9) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (yr Alban) 2014.

Datganiad i'r wasg ar yr adroddiad Cyfiawnder yng Nghymru gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru, 12 Medi 2016

Cyfiawnder yng Nghymru: Adroddiad newydd yn amlinellu cynigion i ddiwygio

Wrth i Gymru symud at fodel datganoli newydd o bwerau wedi ei cadw'n ôl, mae adroddiad gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru Prifysgol Caerdydd yn amlinellu diwygiadau allweddol er mwyn gwella cyfiawnder yng Nghymru.

Yr adroddiad yw'r cyntaf o blith cyfres o gyfraniadau gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru fydd yn hybu trafodaeth am ddyfodol y system gyfiawnder yng Nghymru wrth i'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr ymwahanu.

Mae'r adroddiad yn argymhell:

- Creu 'Canolfan Arbenigedd Cymreig' yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder.
- Sefydlu Comisiwn Sefydlog ar Gyfiawnder yng Nghymru.
- Sefydlu Swyddfa Uchel Lys gwbl weithredol yng Nghymru.
- Sicrhau cynrychiolaeth i Gymru yng Ngoruchaf Lys y DU.
- Cyhoeddi data ar wahân a dangosyddion perfformiad ynglŷn â gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

Cafwyd y sylwadau canlynol gan awdur yr adroddiad, Huw Pritchard:

"Mae gwahaniaeth cynyddol rhwng cyfreithiau Cymru a Lloegr, a bydd hyn yn cynyddu wrth i ni symud at fodel datganoli newydd sy'n cadw pwerau yn ôl.

"Mae'n bwysig i Gymru gael ei chymryd o ddifrif yn y system gyfiawnder. Mae sicrhau bod trefniadau addas ar gyfer y gyfraith yng Nghymru yn y system gyfiawnder sengl yn hanfodol er mwyn i system gyfiawnder Cymru a Lloegr allu ymdopi â'r gwahaniaeth cynyddol rhwng cyfreithiau Cymru a chyfreithiau Lloegr.

"Mae llw o sefydliadau'n rhan o'r gwaith o ddarparu cyfiawnder yng Nghymru, a hynny'n cynnwys y llysoedd a thribiwnlysoedd, y farnwriaeth, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref, yr heddlu, a'r gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuencid. Wrth i ddatganoli ddatblygu, mae datblygiadau sefydliadol *ad hoc* wedi arwain at fylchau ac achosion o orgyffwrdd yn swyddogaethau'r system gyfiawnder.

"Mae yna hefyd ddiffyg democrataidd o ran craffu ar y system gyfiawnder yng Nghymru.

"Mae hyn oll yn golygu bod angen diwygio'r trefniadau ar gyfer gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at feysydd o arferion da, lle cafwyd enghreifftiau o gydweithio cadarnhaol rhwng llywodraethau'r DU a Chymru, ond mae angen gwneud llawer mwy i gydnabod Cymru a chyfreithiau Cymru yn y system gyfiawnder unedig.

"Yn benodol, mae angen i lywodraeth y DU greu Canolfan Arbenigedd Cymreig yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder, sefydlu Swyddfa Uchel Lys gwbl weithredol yng Nghymru; sicrhau

cynrychiolaeth i Gymru yng Ngoruchaf Lys y DU, a chyhoeddi data ar wahân ynglŷn â gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

“Gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn helpu i lywio grŵp gwaith ‘Cyfiawnder yng Nghymru’ a sefydlwyd gan lywodraeth y DU i ystyried goblygiadau ymarferol corff o gyfreithiau ar wahân yng Nghymru ar gyfer y system gyfreithiol y mae Cymru a Lloegr yn ei rhannu.”

NODYN: Cyfieithiad o'r Crynodeb Gweithredol a prif argymhellion yr adroddiad sydd yma. Mae'r adroddiad cyflawn ar gael yn Saesneg yma: [Justice in Wales Sept 16 – Welsh Summary](#)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon